# PWYLLGOR CYNLLUNIO DYDD LLUN, 24 MEHEFIN 2024

**Yn bresennol:** **Cynghorydd Elwyn Edwards (Cadeirydd)**

**Y Cynghorwyr:** Delyth Lloyd Griffiths, Louise Hughes, Elin Hywel, Gareth T Jones, Huw Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Edgar Owen, Gareth Coj Parry, John Pughe, John Pughe Roberts, Gareth Roberts a Gruffydd Williams

**Eraill a wahoddwyd - Aelod Lleol**: Cynghorydd Alan Jones Evans

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd), Miriam Williams (Gwasanaethau Cyfreithiol), Rhys Cadwaladr (Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff), Iwan ap Trefor (Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Cai Larsen a Huw Rowlands. Cyng. Linda Ann Jones (Aelod Lleol cais 6.1)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

a) Datganodd yr aelod canlynol ei fod yn aelod lleol mewn perthynas â'r eitem a nodir:
- Y Cynghorydd Alan Jones Evans (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 (cais am orchymyn dan Ddeddf Rheoli Traffig) ar y rhaglen

## 3. MATERION BRYS

Fel mater o drefn, adroddwyd, gyda'r Cadeirydd yn ymuno yn rhithiol, mai'r Swyddog Cyfreithiol fyddai'n cyhoeddi canlyniadau'r pleidleisiau ar y ceisiadau.

## 4. COFNODION

Fel mater o drefn, adroddwyd, gyda'r Cadeirydd yn ymuno yn rhithiol, mai'r Swyddog Cyfreithiol fyddai'n cyhoeddi canlyniadau'r pleidleisiau ar y ceisiadau.

## 5. CAIS AM ORCHYMYN DAN DDEDDF RHEOLI TRAFFIG Y FFYRDD 1984

**Cymuned Llangywer** **Ward: Llanuwchllyn a Llangywer**

**Bwriad: Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Clirffordd 24awr) Llangywer 2023**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau yn

manylu ar y cynnig i gyflwyno gorchymyn rheoli traffig ar Ffordd Ddosbarth II - B4403 (Llangywer), mewn ymateb i gwynion a phryderon roedd yr Uned Draffig wedi eu derbyn gan Swyddogion Y Parc Cenedlaethol ac aelodau o Gyngor Plwyf Llangywer. Mynegwyd pryderon am effeithiau andwyol parcio diystyriol sydd wedi achosi tagfeydd traffig, sydd yn bryder i bobl leol, ond sydd yn amharu ar amser ymateb y gwasanaethau brys i argyfwng. Roedd yr Uned Drafnidiaeth yn cynnig gweithredu cyfyngiad clirffordd ar y ffordd ac fe ymgynghorwyd ar y cynnig rhwng Mawrth ac Ebrill 2023. Yn ystod y cyfnod ymgynghori derbyniwyd un gwrthwynebiad i'r bwriad gan aelod o'r cyhoedd. Cyfeiriwyd at y gwrthwynebiad oedd yn nodi bod y gorchymyn yn cymryd camau eithafol i ddatrys y sefyllfa, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r sylwadau.

Amlygwyd bod yr Aelod Lleol hefyd wedi cyflwyno barn ar y sefyllfa gan ategu pryderon swyddogion y Parc Cenedlaethol a'r gymuned leol.

Cynigiwyd ac eiliwyd i gyflwyno'r gorchymyn

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan yr aelodau:

- Bod problemau dwys yn yr ardal yn ystod misoedd yr haf
- Rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch ffyrdd
- Bod angen ystyried gosod arwyddion perthnasol yn amlygu bod angen cadw'r ffordd yn glir ar gyfer cerbydau brys - yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth
- Bod cyfle yma yn lleol, i greu ardal parcio fyddai yn lleddfu'r broblem

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwyo cyflwyno cynllun clirffordd ar y B4403 rhwng Llanuwchllyn a'r Bala yn ei gyfanrwydd.**

## 6. CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu. Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau

## 7. CAIS RHIF C22/0136/03/AC CHWAREL MANOD, LLAN FFESTINIOG, LL41 4RF

Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 2 ar ganiatâd cynllunio 5/59/500 (Estyniad i'r Chwarel Lechi ac ail gyfeirio Ffyrdd y Chwarel) er mwyn ymestyn yr amser ar gyfer cloddio a gweithio deunydd hyd at 2048 yn Chwarel Cwt y Bugail, Cwm Teigl, Llan Ffestiniog

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr oedd yn cynnwys sylwadau yn ymwneud a threftadaeth a thrafnidiaeth

a) Amlygodd yr Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff bod Chwarel Cwt y Bugail wedi ei lleoli ar grib Manod Mawr ac yn cynnwys chwareli Manod, Graig Ddu a Bwlch y Slater. Adroddwyd bod y chwarel hefyd yn cynnwys ardal i brosesu a storio sydd wedi eu lleoli ar lwyfandir (wedi ei greu o domen gwastraff llechi) ar lethrau dwyreiniol y mynydd ac yn cynnwys siediau torri, ardal storio, siediau ffitio, maes parcio staff, swyddfa a chyfleusterau llesiant. Er eglurder, ategwyd nad oedd yr ardal brosesu'r chwarel, y siediau torri, gweithdai, maes parcio staff ac isadeiledd cysylltiedig eraill i'r dwyrain o wagle'r chwarel wedi eu cynnwys yng nghaniatâd cynllunio 5/59/500. Er hynny, roedd

Cytundeb Adran 106 cysylltiedig yn berthnasol i'r holl safle ac yn sicrhau bod cynigion adfer yn cael eu gweithredu.

Eglurwyd bod ardal gronnus gwaith y chwarel (sydd wedi ei gynnwys yn y cais Cynllunio) yn fwy na 25ha ac felly dros drothwy datblygiadau Atodlen 1 dan y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2017. Cyflwynwyd Datganiad Amgylcheddol (DA) fel rhan o'r Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA) mewn ymateb i'r gofyniad hwn.

Yng nghyd-destun egwyddor y datblygiad nodwyd, ar hyn o bryd mai'r polisïau cynllunio lleol perthnasol oedd Polisi Mwynau Strategol PS 22 a Pholisi MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011 (CDLl). Datgan Polisi PS 22 y bydd y Cyngor yn cyfrannu at y galw rhanbarthol a lleol parhaus am gyflenwad o fwynau yn unol ag amcanion allweddol datblygu cynaliadwy. Nodwyd hefyd bod Polisi Cynllunio Cymru - Argraffiad 12 (PCC 12) yn ymgorffori polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau mwynau ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001). Yn unol â gofyn PCC 12, mae gan Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Cynllunio Mwynau ddyletswydd i sicrhau bod adnoddau mwynau yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, fel y gallant gyfrannu'n briodol at ofynion deunyddiau adeiladu'r ardal. Ategwyd bod y cais hefyd yn cydymffurfio a meini prawf Polisi MWYN 3 sydd yn caniatáu cynigon datblygu ar gyfer chwilio am fwynau, mwyngloddio neu ymestyn gweithfeydd presennol i gynnal banc tir agregau ardal y Cynllun neu ddiwallu'r galw am fwynau eraill.

Yng nghyd-destun mwynderau gweledol a'r dirwedd, nodwyd y byddai'r datblygiad arfaethedig yn achosi effeithiau uniongyrchol i dirwedd safle'r cais nad oes modd eu hosgoi oherwydd natur echdynnu mwynau. Fel rhan o'r dogfennau ategol, roedd yr ymgeisydd wedi darparu Arfarniad Tirwedd a Gweledol (LVIA) sy'n ystyried sensitifrwydd dynodiadau tirwedd, ardaloedd preswyl a derbynyddion hamdden cyfagos. Amlygwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi asesu'r dogfennau gan ddarparu dadansoddiad o'r effeithiau gweledol gan ddadleu y byddai ymestyn gweithrediadau ar y safle'n creu effaith ar lonyddwch a chymeriad y Parc Cenedlaethol; bod cysyniad y gwaith adfer a ganiateir ar gyfer yr ardal lle ceir adeiladau/siediau/ardaloedd stocio yn gymharol niwlog heblaw am gael gwared ar strwythurau a phroffilio'r tir/y domen llechi a fyddai'n gadael tirffurf ymwthiol.

Mewn ymateb, nodwyd nad oedd y cais yn un ar gyfer datblygiad mwynau newydd, ac mai estyniad ffisegol a / neu addasiadau i'r ardal waith oedd dan sylw. Er hynny, cydnabuwyd bod caniatâd cynllunio, 5/59/500 yn gymharol lac o ran cyfyngiadau ar weithrediadau a all gael effaith sylweddol ar lonyddwch (h.y., sŵn, ansawdd aer, oriau gweithredol) ac nad oedd yr adeiladau / gweithdai / siediau llifio, cyfleusterau staff a meysydd parcio wedi eu cynnwys gan y caniatâd yma, ond o dan nifer o ganiatadau hanesyddol ar wahân.

Ystyriwyd bod cyfle yma i asesu effeithiau gweledol y datblygiad yn erbyn safonau polisi cynllunio presennol, drwy osod amod priodol i ddatblygu cynllun adfer gwell fyddai'n gallu lleihau effaith weledol y safle ar ôl cwblhau'r gwaith. Byddai hyn yn goresgyn pryderon CNC ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau.

Yng nghyd-destun Hydroleg a hydroddaeareg, nodwyd y byddai'r gwaith cloddio yn parhau mewn modd tebyg i'r hyn a wneir ar hyn o bryd. Caiff dŵr ffo o'r chwarel ei gyfeirio at wagle'r chwarel ac wedyn i mewn i wagleoedd

Chwarel Manod sy'n gweithredu fel pyllau gwaddol ar gyfer solidau crog. Bydd dŵr o weithrediadau prosesu yn cael ei ailgylchu gydag unrhyw ddŵr budr o'r gweithfeydd yn cael ei fwydo trwy wasg hidlo cyn ei bwmpio i mewn i Chwarel Manod. Bydd dŵr ffo oddi ar y safle wedi'i gyfyngu i lifo o'r pwll sy'n gorlifo i 'Lyn Ministry' gydag unrhyw orlif yn bwydo afon Teigl. Ar hyn o bryd mae'r chwarel yn dilyn mesurau lliniaru priodol rhag gollyngiadau damweiniol a fydd yn cael eu cadw. Adroddwyd bod CNC wedi adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd ac wedi cadarnhau nad oedd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch hydroleg gydag ymestyn oes gwaith y chwarel yn amodol ar gydymffurfio â pharhau i ddefnyddio mesurau atal llygredd a chanllawiau arfer da.

Ystyriwyd felly na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar nodweddion hydrolegol a pherygl llifogydd ac yn cydymffurfio â gofynion Polisi Strategol PS 19 a Pholisi AMG 3, AMG 5, PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 6 a MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

Yng nghyd-destun materion ecolegol a bioamrywiaeth, nodwyd bod swyddog bioamrywiaeth yr Awdurdod Lleol wedi amlygu pryderon am ardal yn y rhan fwyaf gogleddol o ffin y safle sydd yn yr ardal sydd wedi ei gymeradwyo ar gyfer cloddio mwynau ond sydd eto i'w chloddio/chwarela. Eglurwyd bod yr ardal yma oddeutu 0.5ha o ran maint ac yn cynnwys glaswelltir ucheldirol, rhostir a chors, brigiadau creigiau a phocedi bach o fawn ac yn ardal o werth bioamrywiaeth uchel. Er gwaethaf colli'r tir hwn, roedd y swyddog bioamrywiaeth wedi argymell cynnwys mesurau lliniaru o fewn y cynllun adfer.

Yng nghyd-destun archaeoleg a threftadaeth diwylliannol nodwyd bod CADW wedi amlygu pryderon yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol ynghylch digonolrwydd yr wybodaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â threftadaeth ddiwylliannol fel y'i cynhwysir ym mhennod 9 y Datganiad Amgylcheddol (DA). Roedd y pryderon hyn yn benodol mewn perthynas ag effeithiau gweithrediadau chwarela (ffrwydro/dirgryniad) nodweddion hanesyddol nas dynodwyd yn y chwarel yn ymwneud â storio gweithiau celf o bwys cenedlaethol yn ystod yr Ail Ryfel Byd.  Eglurwyd bod Chwarel Manod wedi ei dewis fel lleoliad cyfleus i storio celf cyfrinachol ac arbenigol ac roedd y datganiad amgylcheddol yn ystyried bod y cyfleuster storio o 'werth uchel ar y cyfan' o ran gwerth tystiolaethol, hanesyddol a chymunedol, ond mai gwerth tystiolaethol cymedrol yn unig sy'n weddill o ran yr olion ffisegol adeiledig (cyflwr y cyfleuster wedi dirywio ers i'r  Weinyddiaeth Amddiffyn ildio'r cyfleuster - generaduron, goleuadau, rhesel hongian lluniau i gyd wedi'u tynnu gydag ychydig o offer wedi eu gadael ar ôl a'r hyn sy'n weddill o'r strwythurau mewn cyflwr gwael a dirywiol gydag ansefydlogrwydd toeau'r ceudyllau hefyd yn cyfyngu mynediad corfforol diogel i'r safle).

Daw'r adroddiad, gan GWP Consultants, i'r difrod dirgryniad posibl o ffrwydro, i'r casgliad y dylid addasu dulliau ffrwydro presennol unwaith y bydd y gwaith o fewn 60m i rannau bregus o'r mwyngloddiau. Ategwyd bod CADW, o dderbyn gwybodaeth ychwanegol, wedi dod i'r casgliad y gellid cynnal gwaith cloddio heb niweidio'r cyfleuster storio celf. Roedd CADW wedi cadarnhau nad oedd gwrthwynebiad i'r bwriad yn amodol ar osod amodau perthnasol ar y caniatâd cynllunio. Bydd yr amodau'n cynnwys cyfyngiadau ar weithgareddau ffrwydro a gofyniad am raglen i gofnodi adeiladau i ledaenu'r canfyddiadau.

Yng nghyd-destun yr economi nodwyd bod ymestyn gwaith cloddio mwynau yn y chwarel yn , yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, swyddi/cyflogaeth gysylltiedig eraill (megis cludiant, peiriannau a pheirianneg). Ategwyd bod y

cwmni'n gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol i'r economi leol a chyflogaeth uniongyrchol/anuniongyrchol o ganlyniad i weithrediadau'r chwarel. Yn fwy na hyn, mae cadw gweithwyr lleol yn cael effeithiau positif ar ddiwylliant, ac yn fwy penodol, ar statws yr iaith Gymraeg yn yr ardal. Ystyriwyd felly y byddai'r bwriad yn gwneud cyfraniad positif i economi'r ardal yn unol â Pholisi Strategol PS 13 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a NCT 23.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol;

- Bod y cais cynllunio yn hwyluso gweithrediad parhaus Cwt y Bugail / Chwarel Manod, gan ganiatáu parhad mewn cynhyrchu llechi yn y chwarel tan 2048.
- Os caiff y cais ei gymeradwyo, bydd yr oes estynedig a ganiateir ar gyfer y chwarel yn darparu sylfaen gadarn i'r Cwmni allu gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf i'r dyfodol yng Nghwt y Bugail fyddai'n lleihau gwastraff, cynyddu nifer y llechi a gynhyrchir fesul tunnell o graig a gloddir, i gynyddu'r gwerthiant blynyddol mewn ymateb i'r galw ac ehangu'r dewis gan gyflwyno cynnyrch newydd, arloesol.
- Bydd hefyd yn sicrhau 34 o swyddi medrus yn y chwarel hyd at 2048.
- Bod y Cwmni'n ddiolchgar i swyddogion Gwynedd a CADW am y cyfle i gydweithio i ddatrys materion yn ymwneud â defnydd ogofau gerllaw'r chwarel a ddefnyddiwyd gan yr Oriel Genedlaethol yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
- Bod cynllun gweithredu wedi ei gytuno fydd yn caniatáu i'r chwarel barhau i weithredu yn unol â'r cynnig wrth sicrhau na fydd y gwaith yn cael effaith ar yr olion, a bod cofnod llawn o'r olion yn cael ei wneud yn gyhoeddus.
- Bod y Cwmni'n ymwybodol iawn o werth y chwarel o ran ei hanes a'i lle yn y gymuned, ynghyd a cheisio sicrhau dyfodol disglair i'r safle yn ogystal â gorffennol cyfoethog.
- Bydd y datblygiad yn mynd ymhell i gyrraedd y nod hwn.

Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu'r cais

Mewn ymateb i sylw bod y cais wedi ei gofrestru yn 2022 gyda nifer o sylwadau'r ymgynghoriad wedi eu dyddio 2022 ac os oedd materion mwy diweddar wedi codi ond heb gael sylw, nodwyd bod sylwadau CADW wedi cymryd amser i'w datrys ac o ganlyniad bu rhaid cynnal cyfnod ymgynghori ychwanegol.

**PENDERFYNWYD:**

**Dirprwyo'r hawl i Bennaeth yr Adran Amgylchedd gymeradwyo'r cais, gydag amodau'n ymwneud â'r canlynol:**

- **Y gwaith i ddod i ben ar 31/12/2048, adfer y safle erbyn 31/12/2049.**
- **Gweithgareddau a ganiateir a chydymffurfiaeth â'r lluniad / manylion / cynlluniau / gwybodaeth a gyflwynwyd.**
- **Marcio ffin y safle ac ardaloedd cloddio am fwynau ynghyd â'r ardaloedd tipio.**
- **Dirymu hawliau GPDO Rhannau 19 a 21 ar gyfer offer neu beiriannau sefydlog, adeiladau a strwythurau a gwastraff mwynau.**

- **Terfyn allforio o 15,000 tunnell y flwyddyn.**
- **Deunydd wedi'i allforio wedi'i gyfyngu i'r briffordd gyhoeddus bresennol.**
- **Gweithrediadau tipio i'w cyfeirio tuag at y tirffurf terfynol.**
- **Capasiti tipio wedi'i ddiweddaru.**
- **Rheoli cyfyngiadau sŵn.**
- **Cyfyngu ar ffrwydro rhwng 07:00 a 20:00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Dim ffrwydro ar ddydd Sul na gwyliau banc na chyhoeddus.**
- **Cyflymder gronynnau brig wedi'i gyfyngu i 50mm/ s ar gyfer 95% o ffrwydradau gorlwytho dros gyfnod o dri mis a heb fod yn fwy na 60mm/s ar unrhyw adeg.**
- **Rhaid mesur anterth cyflymder gronynnau ar y pwynt agosaf at safle'r ffrwydrad o fewn yr ardal gysgodol a ddangosir yn Lluniad Cyfeirnod WCYBG2312 Rhif 10.**
- **Monitro gweithrediadau ffrwydro i gofnodi cyflymder gronynnau brig.**
- **Adolygiad bob pum mlynedd o’r gweithrediadau.**
- **Cyflwyno'r adolygiad cyntaf o fewn 12 mis.**
- **Cynllun Adfer manwl.**
- **Gwaith adfer graddol / blaengar.**
- **5 mlynedd ôl-ofal/monitro.**
- **Bydd cynllun ailfodelu tirffurf yn cael ei gymhwyso i feinciau Chwarel y North Pole ac wynebau cysylltiedig fel y nodir ar gynlluniau ar gyfer creu tirffurf sefydlog a nodweddion i gyd-fynd â bwtresi a chreigiau a sgri cyfagos.**
- **Ar ôl rhoi'r gorau i weithio, bydd y chwareli/peiriannau/deunyddiau/offer yn cael eu clirio a bydd y safle’n cael ei gadael mewn cyflwr glân/taclus, meinciau chwarel yn cael eu paratoi, eu trin a'u plannu gyda fflora o darddleoedd lleol, ffyrdd cludo i gael eu symud.**
- **Cyfyngu mynediad i dda byw i'r ardaloedd sydd wedi'u hadfer.**
- **Dim peiriannau nac offer i'w gweithredu heb sgriniau 'lladd' sain priodol ac wedi'u cynnal yn iawn, distawyddion ac ati.**
- **Bydd pob cerbyd sy'n cludo deunydd crai neu wastraff yn cael eu gweithredu mewn modd fel nad ydynt yn cynhyrchu gormod o sŵn.**
- **Dim gweithrediadau fydd yn achosi i lwch ffoi godi a bod pob ardal sy'n cael eu tramwyo gan gerbydau yn cael eu dyfrio i lawr.**
- **Bydd cael gwared ar lystyfiant, atgyweirio neu ddymchwel adeiladau a gweithio ardaloedd ble yn flaenorol cafodd mwynau eu tynnu/chwarelu/tipio yn digwydd y tu allan i'r tymor nythu er mwyn gwarchod adar sy'n nythu. Ecolegydd cymwys**
- **Dim gweithrediadau i'w gwneud ar yr wyneb heb dynnu a storio'r pridd uchaf, isbriddoedd a mawn.**
- **Priddoedd uchaf ac isbriddoedd i'w hailddefnyddio cyn gynted â phosibl (Wrth adfer).**
- **Priddoedd uchaf i gael eu storio mewn twmpathau heb fod yn fwy na 2m o uchder.**
- **Cofnodi adeilad hanesyddol y cyfleusterau storio celf a Chynllun Ymchwilio Ysgrifenedig.**
- **Cynllun monitro a difa rhywogaethau anfrodorol/ymledol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 1.50 y.h.

**CADEIRYDD**